# Cynllun Grantiau Bach Seilwaith Gwyrdd a Glas (SGG) dan Arweiniad y Gymuned

# Canllawiau Ymgeisio

Mai 2025

Fersiwn 1.1



Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Cefnogwyd gan
Supported by

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Cynnwys

1. Diben ... 1
2. Pwy all wneud cais? ... 2
3. Pa gyllid sydd ar gael? ... 2
4. Gweithgareddau cymwys ... 3
 4.1. Ardaloedd targed ... 3
 4.2. Amcanion y cynllun ... 4
 4.3. Cyfleoedd blaenoriaeth yn Sir Gaerfyrddin ... 5
 4.4. Gwariant cymwys ... 6
 4.5. Gwariant nad yw'n gymwys ... 7
5. Allbynnau prosiect disgwyliedig ... 8
6. Gwneud cais ac asesu ... 10
 6.1. Sut i wneud cais? ... 11
 6.2. Y meini prawf ar gyfer gwerthuso ... 12
7. Proses hawlio a monitro ... 14
8. Canllawiau caffael ... 15
9. Adfachu cronfeydd grant ... 15
10. Gwybodaeth gyswllt ... 15
Atodiad A: Tystiolaeth o gymhwysedd ... 16
Atodiad B: Rheolau ynghylch Caffael Grantiau gan Drydydd Parti ... 17

## Byrfoddau

| | |
|---|---|
| SGG | Seilwaith gwyrdd a glas |
| SDCau | Systemau Draenio Cynaliadwy |

## Gwyrddu Sir Gâr

# Cynllun Grantiau Bach SGG a Arweinir gan y Gymuned

## 1. Diben

Nod y **Cynllun Grantiau Bach ar gyfer Seilwaith Gwyrdd a Glas (SGG) a Arweinir gan y Gymuned** yw cefnogi grwpiau lleol i gyflwyno mentrau gwyrddu a arweinir gan y gymuned sy'n gwella iechyd a llesiant, yn cynyddu mynediad i fannau awyr agored, ac yn darparu buddion amlswyddogaethol.

Trwy greu, gwella ac ehangu mannau gwyrdd a glas ar draws Sir Gaerfyrddin, mae'r cynllun yn ceisio mynd i'r afael â heriau allweddol megis yr argyfyngau natur a hinsawdd wrth ar yr un pryd achub ar gyfleoedd i wella llesiant cymunedol a chefnogi cymunedau cynaliadwy. Mae'r cymorth ariannol hwn yn galluogi cymunedau i ddatblygu mannau awyr agored cynaliadwy, cynhwysol a gwydn sydd o fudd i bobl, lleoedd a natur.

Bydd y gronfa'n agor ddydd **Llun 12fed Mai 2025**, ac ar yr adeg honno gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr cymwys. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno yw dydd **Gwener 6ed Mehefin 2025**, ac ni fydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried. Disgwylir i brosiectau cymeradwy ddechrau o fis **Gorffennaf 2025** a rhaid iddynt gael eu cwblhau'n llawn, gyda phob hawliad wedi'i gyflwyno, erbyn **31ain Hydref 2025** fan bellaf.



## 2. Pwy all wneud cais?

Er mwyn bod yn gymwys am gyllid, rhaid i ymgeiswyr:

- Dangos y bydd eu prosiect o fudd uniongyrchol i **drigolion a chymunedau Sir Gaerfyrddin**, gyda phwyslais ar gyflawni o fewn o leiaf un o'r ardaloedd targed a restrir ar gyfer y cynllun hwn.
- Bod yn **gyngor tref neu gyngor cymuned**, **yn grŵp neu gymdeithas gyfansoddiadol**, **yn elusen gofrestredig**, **yn fenter gymdeithasol**, neu'n **gwmni buddiant cymunedol** sydd wedi'i leoli yng Nghymru.
- Sicrhau bod **gweithdrefnau llywodraethu a rheolaeth ariannol priodol** ar waith**.** Gall hyn gynnwys darparu prawf o yswiriant, megis atebolrwydd cyhoeddus.

**Cyfeiriwch at Atodiad A am ragor o fanylion.**

## 3. Pa gyllid sydd ar gael?

- Gall ymgeiswyr cymwys wneud cais am **isafswm o £1,000** ac **uchafswm o £3,000**, hyd at **100% o gyfanswm costau'r prosiect**.
- Nid oes angen arian cyfatebol, ond bydd cyfraniadau cyllid ychwanegol yn cael eu hystyried yn gadarnhaol.
- **Rhaid i ymgeiswyr dalu am holl wariant y prosiect ymlaen llaw** a hawlio ad-daliad yn ddyledus gan Gyngor Sir Caerfyrddin.
- Mae Gwyrddu Sir Gâr yn bwriadu dyrannu cyfanswm o £39,000 tuag at fentrau gwyrddu ac fe'i hariennir gan Lywodraeth y DU drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin gyda chymorth gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

## 4. Gweithgareddau cymwys

Cynllun **cyfalaf yn unig** yw hwn a rhaid defnyddio grantiau i ariannu creu neu wella SGG[1] sydd â budd cymunedol sylweddol.

### 4.1. Ardaloedd targed

Nod y cynllun yw ariannu o leiaf un prosiect o fewn pob un o'n prif ganolfannau a'n Deg Tref wledig, gan sicrhau dosbarthiad daearyddol eang a hyrwyddo mynediad teg at gyllid ar draws y rhanbarth. Yr ardaloedd hyn yw:

- Rhydaman
- Caerfyrddin
- Cross Hands
- Cwmaman
- Cydweli
- Talacharn
- Llandeilo
- Llanymddyfri
- Llanelli
- Llanybydder
- Castellnewydd Emlyn
- Sanclêr
- Hendy-gwyn ar Daf

Bydd cynigion sy'n anelu at gyflawni mewn rhannau eraill o'r sir yn ogystal ag un neu fwy o'r ardaloedd targed hefyd yn cael eu hystyried. Os oes diddordeb sylweddol mewn un ardal ac nad oes cais ffafriol wedi dod i law o ardaloedd eraill, gellir gwahodd ymgeiswyr i gyflawni eu prosiectau mewn rhannau eraill o'r sir, ar yr amod bod eu cynigion yn addas ac yn effeithiol yn y lleoliadau hynny.

[1] Fel y dyfynnir ar dudalen 4 o Strategaeth SGG Ddrafft Sir Gaerfyrddin: *"Gellir diffinio SGG fel y rhwydwaith o nodweddion amlswyddogaethol, naturiol a lled-naturiol sy'n amgylchynu ac wedi'u plethu i'n tirweddau trefol a gwledig. Yn yr un modd ag y mae ein rhwydwaith trafnidiaeth yn cysylltu pobl a busnesau drwy balmentydd, ffyrdd a rheilffyrdd, mae SGG yn cysylltu cymunedau a'r amgylchedd adeiledig â byd natur".* Gall SGG amrywio'n sylweddol o ran math, graddfa a swyddogaeth.

## 4.2. Amcanion y cynllun

Rhaid i brosiectau alinio ag o leiaf un o'r pum amcan canlynol:

- **Gwella mannau gwyrdd cymunedol:** Datblygu prosiectau SGG newydd neu bresennol, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) barciau, prosiectau gwyrddu trefol, llwybrau natur, mannau gwyrdd, gerddi cymunedol a mannau tyfu cymunedol sy'n meithrin ymgysylltiad a llesiant cymunedol.
- **Gwella bioamrywiaeth a mynediad i fyd natur:** Plannu coed, creu dolydd blodau gwyllt, cynnal gwaith tirweddu sy'n gyfeillgar i bryfed peillio, a chreu cynefinoedd, gan ganolbwyntio'n benodol ar wella mynediad i natur mewn ardaloedd o amddifadedd ac ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol.
- **Hyrwyddo creu lleoedd ac adfywio canol trefi:** Gosod seddi awyr agored, arwyddion addysgol a mentrau gwyrddu mewn ardaloedd lle mae llawer o bobl yn ymweld, megis canol trefi, i adfywio mannau agored a chreu mannau cyhoeddus croesawgar a bywiog sy'n meithrin rhyngweithio a llesiant cymunedol.
- **Lliniaru llygredd amgylcheddol:** Mentrau sy'n defnyddio atebion ar sail natur i fynd i'r afael â llygredd (aer, sŵn, golau, dŵr) a phwysau ecolegol gan rywogaethau goresgynnol. Gall prosiectau gynnwys systemau draenio cynaliadwy (SDCau), plannu coed, neu reoli rhywogaethau goresgynnol i greu amgylcheddau iachach a mwy cynaliadwy.
- **Arddangos datrysiadau SGG arloesol:** Nod y prosiectau hyn yw profi cysyniadau arloesol mewn lleoliadau byd go iawn, gyda phwyslais ar hyrwyddo datblygiad trefol cynaliadwy a gwella bioamrywiaeth mewn ardaloedd dwysedd uchel sydd â nifer uchel o ymwelwyr (canol trefi). Gall hyn gynnwys integreiddio SGG ar lefel adeiladau. Eu nod yw gwerthuso effeithiolrwydd a'r gallu i dyfu yn unol â'r anghenion i weld a oes modd eu gweithredu'n ehangach ar draws y sir.

## 4.3. Cyfleoedd blaenoriaeth yn Sir Gaerfyrddin

Anogir ymgeiswyr i ddatblygu cynigion ar sail heriau lleol, angen y gellir ei ddangos, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae croeso arbennig i brosiectau sy'n alinio â chyfleoedd blaenoriaeth yn Strategaeth SGG drafft Sir Gaerfyrddin (tudalen 43) sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys:

- Creu mannau chwarae
- Gwella gorchudd coed
- Sefydlu mannau gwyrdd ar gyfer safleoedd hanesyddol
- Archwilio adrodd straeon amgylcheddol
- Dod o hyd i fannau ar gyfer tyfu cymunedol
- Gwyrddu'r mannau lle mae pobl yn byw ac yn gweithio a lle maent yn ymweld
- Hyrwyddo draenio cynaliadwy (SDCau)
- Diogelu a chysylltu mannau arfordirol
- Darparu llwybrau gwyrdd ar gyfer teithio llesol
- Adfer coridorau glas
- Ailfeddwl swyddogaethau parciau a mannau glaswelltog

Dylai ymgeiswyr ystyried sut y gall eu cynigion gyfrannu at y blaenoriaethau allweddol hyn, gan sicrhau eu bod yn alinio ag ymdrechion ehangach i greu lleoedd a darparu buddion amlswyddogaethol parhaol i bobl, lleoedd a natur.

## 4.4. Gwariant cymwys

Mae'r rhestr ganlynol yn rhoi ystod eang o enghreifftiau o bryniannau cymwys:

- ✓ Prosiectau garddwriaethol a arweinir gan y gymuned, gan gynnwys creu perllannau ffrwythau a chynlluniau plannu bwytadwy (mae bwyd o stoc leol, gan gynnwys amrywiadau treftadol o Gymru, yn cael ei ffafrio).
- ✓ Offer a nodweddion sy'n darparu cyfleoedd i chwarae.
- ✓ Prosiectau plannu cloddiau, coed a choetiroedd.
- ✓ Seilwaith fel rheseli beiciau, meinciau, arwyddion a hysbysfyrddau cymunedol sy'n gwella mwynhad y cyhoedd o SGG.
- ✓ Deunyddiau ar gyfer creu cynefinoedd, gan gynnwys pentyrrau o foncyffion, llochesi ar gyfer bywyd gwyllt, a bocsys nythu.
- ✓ Asedau ffisegol sy'n hwyluso cyfranogiad cymunedol, addysg a gwirfoddoli mewn prosiectau SGG a arweinir gan y gymuned (e.e. siediau offer, llochesi awyr agored, mannau ymgynnull, canfod y ffordd, arwyddion addysgol, gwelliannau o ran hygyrchedd, offer ar gyfer ymdrechion cadwraeth a arweinir gan wirfoddolwyr).
- ✓ Planhigion ar gyfer adfer cynefinoedd neu dirlunio sy'n gwella bioamrywiaeth (mae stoc o darddiad lleol yn cael ei ffafrio, gan gynnwys rhywogaethau cynhenid).
- ✓ Gwelyau uwch, blychau plannu blodau, twnelau polythen neu offer ar gyfer garddio cymunedol.
- ✓ Deunyddiau adeiladu sydd wedi'u hailgylchu neu sy'n gynaliadwy ar gyfer datblygu parciau, llwybrau neu fannau gwyrdd.
- ✓ Systemau rheoli dŵr cynaliadwy, megis casglu dŵr glaw.
- ✓ Offer a chyfarpar ar gyfer sicrhau cynaliadwyedd SGG a arweinir gan y gymuned a'i gynnal a'i gadw'n parhaus.
- ✓ Gerddi fertigol, toeau gwyrdd, neu SGG arall ar raddfa adeiladau ar gyfer gwyrddu trefol a lleihau llygredd.
- ✓ Seilwaith sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt, gan gynnwys blychau ystlumod, gwestai pryfed a bwydwyr adar.
- ✓ Gwaith wedi'i gontractio gyda'r nod o wella, adnewyddu neu adfer SGG sydd wedi dirywio lle mae budd cymunedol clir a sylweddol.

Sylwch nad yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr.

## 4.5. Gwariant nad yw'n gymwys

**NI** chaniateir defnyddio cronfeydd arian ar gyfer y canlynol:

- Costau gweithredu cyffredinol: Unrhyw gostau gweinyddol, staffio neu weithredol nad ydynt yn gysylltiedig â chreu neu wella SGG yn ffisegol.
- Caffael tir: Ni ellir defnyddio'r gronfa i brynu tir neu eiddo.
- Cynnal a chadw'r seilwaith a grëwyd gan y gronfa: Unwaith y bydd prosiect wedi'i gwblhau, ni ddylid ariannu gwaith cynnal a chadw parhaus (fel gwaith atgyweirio, ailbaentio neu adnewyddu deunyddiau) drwy'r cynllun hwn.
- Gwariant nad yw'n wariant gyfalaf: Ni ellir defnyddio cyllid ar gyfer gweithgareddau megis cyflawni rhaglen, hyfforddiant neu weithdai addysgol oni bai eu bod yn uniongyrchol gysylltiedig â rhoi SGG newydd ar waith neu wella SGG presennol.
- Dibenion nad ydynt yn rhai amgylcheddol: Ni cheir defnyddio'r cronfeydd arian ar gyfer prosiectau nad ydynt yn cyfrannu'n uniongyrchol at wella SGG (neu fwynhad ohono) neu fynd i'r afael â heriau amgylcheddol, megis datblygu trefol cyffredinol neu waith adeiladu adeiladau.
- Gwaith cynnal a chadw parhaus o SGG presennol: Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau rheolaidd fel torri gwair, tocio a chwynnu.
- Gwelliannau i eiddo preifat: Ni ellir defnyddio'r cyllid i wella tir neu fannau preifat nad ydynt yn darparu mynediad cyhoeddus anghyfyngedig.
- Costau ôl-weithredol: Ni ellir ad-dalu prosiectau sydd eisoes wedi dechrau neu wedi'u cwblhau cyn derbyn y 'Llythyr Gweithredu'.
- Eitemau a brynwyd gan ddefnyddio arian parod, prynu ar les, hurbwrcasu neu gytundebau credyd estynedig / lesi cyllid.



## 5. Allbynnau prosiect disgwyliedig

Cynlluniwyd y cynllun hwn i gefnogi cymunedau lleol i gyflawni prosiectau SGG ystyrlon a mesuradwy sy'n cyfrannu at Sir Gaerfyrddin fwy cynaliadwy a gwydn. Rhaid i bob cais ddangos sut y bydd yn cyflawni o leiaf ddau o'r allbynnau canlynol:

➔ **Creu neu wella SGG. Mae hyn yn cynnwys:**

- Datblygu SGG newydd a arweinir gan y gymuned neu ehangu SGG presennol.
- Gwella SGG presennol mewn modd sy'n cynnig budd cymunedol sylweddol.

Mesur meintiol: Arwynebedd ($m^2$) y mannau gwyrdd neu las i'w creu neu eu gwella.

➔ **Ymgysylltiad ac addysg gymunedol. Mae hyn yn cynnwys:**

- Trefnu gweithdai, digwyddiadau neu sesiynau hyfforddi. Gallai hyn fod er mwyn helpu i gyflawni Allbwn 1 neu ar gyfer ymgysylltu ehangach i gynnwys y gymuned leol.

Mesur meintiol: Nifer y digwyddiadau neu weithgareddau a gynlluniwyd.

- Gosod arwyddion dehongli i ddarparu gwybodaeth addysgol am ecosystemau ac ymdrechion cadwraeth lleol.

Mesur ansoddol: Effaith ganfyddedig ar ymwybyddiaeth a chyfranogiad cymunedol.

➔ **Cyfleoedd i wirfoddoli. Mae hyn yn cynnwys:**

- Sefydlu grwpiau gwirfoddoli cymunedol newydd neu ehangu grwpiau gwirfoddoli i gefnogi mentrau SGG.
- Creu rhaglenni gwirfoddoli strwythuredig i annog cyfranogiad cymunedol hirdymor yn y gwaith o gynnal a chadw SGG.

Mesur meintiol: Nifer y cyfleoedd i wirfoddoli a grëwyd.

➔ **Mynediad a mwynhad cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys:**

- Gosod nodweddion chwarae, llwybrau hygyrch, mannau eistedd, neu seilwaith arall ar gyfer hamdden i wella defnyddioldeb SGG presennol.

Mesur meintiol: Arwynebedd ($m^2$) tir y cyhoedd sydd wedi'i wella.

- Gwella nodweddion canfod ffordd a hygyrchedd i sicrhau bod holl aelodau'r gymuned yn gallu elwa ar brosiectau SGG.

Mesur ansoddol: Effaith ganfyddedig ar hygyrchedd, cynhwysiant a mwynhad.



## 6. Gwneud cais ac asesu

Mae’r holl gyllid a ddarperir drwy’r cynllun hwn yn ôl disgresiwn. Nid yw gwneud cais yn gwarantu cyllid. Os bydd eich cais yn aflwyddiannus neu’n rhannol lwyddiannus (h.y. rydych yn derbyn swm is na’r hyn y gofynnwyd amdano), byddwn yn cysylltu â chi i egluro’r penderfyniad ac yn eich cyfeirio at gyfleoedd ariannu posibl eraill lle bo’n berthnasol.

Bydd y cynllun yn cael ei gyflawni fel a ganlyn:

| Dyddiad | Gweithgaredd | Disgrifiad |
|---|---|---|
| 12fed Mai 2025 | **Cais yn Agor** | Mae darpar ymgeiswyr yn cael eu hannog i wneud cais. Noder na fydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried. Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich cais neu os hoffech drafod eich syniad prosiect. |
| 6ed Mehefin 2025 | **Cais yn Cau** | |
| wythnos yn dechrau 9fed Mehefin | **Gwerthusiad** | Caiff ceisiadau eu hasesu gan banel. |
| diwedd mis Mehefin | **Dyfarniad grant** (yn amodol ar gyflwyno gwybodaeth berthnasol megis dyfynbrisiau). | Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn ‘*Llythyr Cynnig’* yn amlinellu telerau ac amodau’r dyfarniad. Rhoddir gwybod i ymgeiswyr aflwyddiannus. |
| o fis Gorffennaf ymlaen | **Gweithredu prosiect a hawliadau** | Unwaith y byddant wedi cael ‘*Llythyr Gweithredu’*, rhaid i brosiectau gyflawni yn unol â’u ‘*Llythyr Cynnig’*. Rhaid i bawb gyflwyno tystiolaeth o allbynnau, megis lluniau a chofnodion cyfranogiad gwirfoddolwyr, ynghyd â dogfennaeth ariannol. |
| 31ain Hydref 2025 | **Hawliad terfynol** | Rhaid cwblhau pob prosiect erbyn y dyddiad hwn. Ni fydd cyfle i ymestyn y project. |
| **Mae’r cynllun yn cau** | | |

## 6.1. Sut i wneud cais?

Bydd angen i chi gyflwyno cais sy'n amlinellu eich cynnig a'ch costau erbyn dydd 6 Mehefin 2025, fan bellaf. Ar gyfer hyn, bydd angen y wybodaeth ganlynol arnoch:

- Eich manylion a'ch sefydliad
- Dewis iaith
- Syniad y cynnig
- Lleoliad a pherchnogaeth/rheolaeth tir
- Costau prosiect dangosol a chais am grant (dyfyniadau os oes gennych chi nhw)
- Hanes unrhyw grantiau eraill a dderbyniwyd (cymorth grant)
- Manylion unrhyw gyllid ychwanegol a geisir / a sicrhawyd (os yw'n berthnasol)

Os bydd eich cais yn llwyddiannus (yn amodol ar y telerau a amlinellir yn y *Llythyr Cynnig*), efallai y bydd gofyn i chi ddarparu gwybodaeth ychwanegol. Byddwn yn cysylltu â chi drwy e-bost gan ddefnyddio'r manylion a ddarparwyd yn eich cais i ofyn am hyn. Gall gwybodaeth o'r fath gynnwys:

- Dyfynbrisiau ar gyfer gwariant cymwys[2]
- Tystiolaeth o gymhwysedd (gweler Atodiad A)
- Tystiolaeth o arian cyfatebol (os yn berthnasol)
- Unrhyw wybodaeth sydd angen eglurhad ychwanegol yn eich cais

**Croesewir ceisiadau yn y Gymraeg, ac ni fydd y rhai a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.**

### Diogelu data

Bydd yr holl ymatebion sy'n dod i law yn cael eu trin yn unol â'n hysbysiad preifatrwydd. Ewch i'n tudalen we ar ddiogelu data i gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau diogelu data ac i gael manylion cyswllt ein Swyddog Diogelu Data. Gan fod y cynllun hwn yn cael ei ariannu drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, gellir rhannu data hefyd at ddibenion monitro prosiectau.

[2] Rhaid i chi ddilyn y canllawiau caffael a amlinellir ym Mhennod 8.

## 6.2. Y meini prawf ar gyfer gwerthuso

Dylid nodi mai grant dewisol yw hwn a bydd pob cais yn cael ei asesu gan banel sy'n cynnwys swyddogion o'r awdurdod lleol cyn ei gymeradwyo gan y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd.

Mae penderfyniad y panel yn derfynol ac nid oes cyfle i apelio yn erbyn y penderfyniad, er y gallwn roi adborth ar eich cais os gofynnir am hynny.

Bydd ceisiadau'n cael eu gwerthuso a'u blaenoriaethu ar sail eu teilyngdod unigol, yn unol â'r meini prawf canlynol. Darperir hefyd gwestiynau perthnasol y bydd y panel gwerthuso yn eu hystyried yn erbyn pob maen prawf.

- ➔ **Alinio ag amcanion y cynllun a chyfleoedd blaenoriaeth**

*A yw'r cynnig yn alinio ag o leiaf un o'r pum amcan (gweler Adran 4.2)?*

*A yw'r cynnig yn cyflawni yn erbyn y cyfleoedd blaenoriaeth (gweler Adran 4.3)?*

- ➔ **Cyflawni yn erbyn allbynnau disgwyliedig y prosiect**

*A yw'r cynnig yn cyflawni o leiaf ddau allbwn (gweler Pennod 5)?*

- ➔ **Beth yw'r effaith ar gymunedau targed?**

*Sut bydd y cynnig o fudd i'r gymuned leol?*

*A yw'r cynnig yn ymateb yn effeithiol i heriau lleol, anghenion dynodedig, a/neu ymgysylltu â rhanddeiliaid?*

Efallai y bydd ymgeiswyr am ystyried defnyddio'r adnoddau canlynol, sydd ar gael yn gyhoeddus, i ddangos diffyg mynediad at gyfleoedd neu ddiffygion presennol, megis Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC); Asesiad Mannau Agored Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin; Cynllun Gweithredu Deg Tref; ac ymgyngoriadau, astudiaethau, arolygon neu adroddiadau lleol presennol.

➔ **Gwerth am arian**

*Beth yw maint canfyddedig y mesurau yn erbyn allbynnau disgwyliedig y project (gweler Pennod 5)?*

*Pa mor effeithiol fydd y grant yn cael ei ddefnyddio i fwyhau'r buddion cymunedol ac amgylcheddol?*

➔ **Cyflawnadwyedd**

*A yw'n ymddangos bod modd cyflawni'r cynnig o fewn yr amserlenni a roddwyd?*

*A oes unrhyw faterion sy'n ymwneud â pherchnogaeth tir y gellir eu rhagweld?*

➔ **Lleoliad arfaethedig**

*A yw'r cynnig yn gwasanaethu o leiaf un o'r 13 ardal darged (gweler Adran 4.1)?*

➔ **Cydweithio cymunedol ac osgoi dyblygu**

*Pa lefel o ymgysylltiad cymunedol y mae'r cynnig yn ei chynnwys?*

*A oes tystiolaeth o weithio mewn partneriaeth a sicrhau bod ymdrechion yn ategu mentrau lleol presennol?*

➔ **Cynaliadwyedd hirdymor**

*Sut bydd y prosiect yn cael ei gynnal y tu hwnt i gyfnod y grant?*

Efallai y bydd ymgeiswyr am ystyried ffactorau fel stiwardiaeth gymunedol barhaus neu waith cynnal a chadw parhaus a arweinir gan wirfoddolwyr; integreiddio â chyrff cyhoeddus presennol neu fentrau presennol a arweinir gan y gymuned; a chyfleoedd ar gyfer cyllid ychwanegol i gynnal ac ehangu effaith y prosiect.

➔ **Blaenoriaethau trawsbynciol**

*A yw'r cynnig yn ystyried y Gymraeg, cyfle cyfartal, a chynaliadwyedd ehangach?*

## 7. Proses hawlio a monitro

Cyflawnir y mesurau canlynol i sicrhau tryloywder ac atebolrwydd ac er mwyn cyflawni'r cynllun yn effeithiol:

- **Y broses dalu:** Gwneir taliadau mewn ôl-daliadau ar ôl cyflwyno ffurflen hawlio grant wedi'i chwblhau, ynghyd ag anfonebau wedi'u talu a chyfriflenni banc cyfatebol fel prawf o wariant. Gellir ystyried taliadau rhannol neu gyfnodol lle bo'n briodol, yn amodol ar gymeradwyaeth ymlaen llaw.
- **Cymhwysedd y gwariant:** Ni fydd unrhyw gostau a gafwyd cyn cyhoeddi'r *'Llythyr Gweithredu'* yn gymwys i gael eu had-dalu. Dylai ymgeiswyr sicrhau bod yr holl wariant yn alinio â chwmpas cymeradwy'r prosiect.

### Gofynion monitro ac adrodd:

- **Rhaid i brosiectau gyflwyno adroddiad monitro terfynol erbyn mis 31ain Hydref 2025**, yn manylu ar ddeilliannau ac effaith y gweithgareddau a ariennir. Rhaid cynnwys manyleb fanwl o'r gwaith a gyflawnwyd, yn amlinellu gweithgareddau allweddol, tystiolaeth yn erbyn allbynnau'r prosiect, a sut roedd y prosiect yn alinio ag amcanion y cynllun.
- Rhaid i brosiectau ddarparu ffotograffau a dynnwyd cyn dechrau gwaith ar y prosiect, ac ar ôl cwblhau'r prosiect, i ddangos gwelliannau a chyflawniadau ffisegol.
- Mae'n bosibl y gofynnir am ddiweddariadau ychwanegol ynghylch cynnydd drwy gydol y prosiect i sicrhau cydymffurfedd ag amodau ariannu.

### Delio â newidiadau hwyr:

Os oes angen i chi newid unrhyw eitemau neu gyflenwyr a restrir yn eich cais, rhaid i chi roi gwybod i ni cyn gynted â phosibl, gan roi'r manylion canlynol:

- Yr eitemau neu gyflenwyr sy'n cael eu newid a'r rheswm dros y newid;
- Yr eitemau, cyflenwyr, a chostau cysylltiedig newydd ac arfaethedig; a
- Dyfynbrisiau wedi'u diweddaru, gan sicrhau cydymffurfedd â rheolau caffael.

**Pwysig: Peidiwch â bwrw ymlaen ag unrhyw bryniannau nes eich bod wedi cael cymeradwyaeth ffurfiol ar gyfer y newidiadau hyn.**

## 8. Canllawiau caffael

Wrth gaffael gwaith, nwyddau a/neu wasanaethau, disgwylir i ymgeiswyr gynnal y broses mewn modd sy'n sicrhau didwylledd, gwerth am arian a thegwch, a rhaid iddynt ddilyn y gweithdrefnau caffael fel y'u hamlinellir yma.

### Meddwl Sir Gŵr yn gyntaf

'Meddyliwch Sir Gâr yn gyntaf' wrth ofyn am ddyfynbrisiau. Rydym yn eich annog i archwilio'r farchnad i weld a oes unrhyw fusnesau yn Sir Gaerfyrddin a all ddarparu'r nwyddau/gwasanaeth yr ydych yn ceisio eu prynu a'u cynnwys yn eich gwahoddiad i roi dyfynbris.

### Trothwyon caffael

Rhaid i bob ymgeisydd gadw at reolau caffael Cyngor Sir Gaerfyrddin ar gyfer trydydd partïon. Gall methu â chydymffurfio olygu bod gwariant yn anghymwys.

**Mae trothwyon a gweithdrefnau caffael i'w gweld yn Atodiad B.**

## 9. Adfachu cronfeydd grant

Bydd cyllid yn cael ei atal a/neu, i'r graddau y mae taliad wedi'i wneud, bydd derbynnydd y grant yn ad-dalu cyllid, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, yn yr achosion canlynol:

- bu gordaliad o gyllid;
- canfyddir bod yr ymgeisydd wedi gwneud unrhyw gamliwio yn ei gais;
- bod y prosiect a ddyfarnwyd yn mynd trwy newid sylweddol a ddiffinnir fel un sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion heblaw'r rhai a nodir yn y cais, neu newid perchennog heb roi gwybod i Gyngor Sir Caerfyrddin.

## 10. Gwybodaeth gyswllt

Ewch i dudalen benodol y cynlluniau ar ein gwefan am ragor o wybodaeth.

## Atodiad A: Tystiolaeth o gymhwysedd

Nod y cynllun yw dyfarnu grantiau i grwpiau cymunedol a gwirfoddol sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl Sir Gaerfyrddin. Gan roi tystiolaeth o'r gofynion a nodir ym Mhennod 2, i fod yn gymwys mae angen:

- ➔ **Pwyllgor rheoli** sy'n cynnwys o leiaf dri unigolyn nad ydynt yn perthyn i'w gilydd sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau (ymddiriedolwyr neu gyfarwyddwyr).
- ➔ **Cyfansoddiad wedi'i lofnodi** (neu set o reolau) yn amlinellu strwythur a phwrpas eich grŵp (gyda thystiolaeth ei fod wedi'i fabwysiadu).
- ➔ **Cyfrif banc** yn enw eich grŵp sydd angen dau lofnodwr neu awdurdodiad deuol ar gyfer trafodiadau.
- ➔ **Cyfrifon ariannol clir** sy'n gwahanu incwm a gwariant anghyfyngedig a chyfyngedig, o'r adeg y daw arian i mewn i'r sefydliad i'r adeg y caiff ei wario.

Lle bernir ei fod yn berthnasol, yn amodol ar statws eich endid, efallai y bydd hefyd angen **datganiad ariannol** yn amlinellu sut yr ydych yn rheoli arian a thaliadau; **polisi diogelu** os ydych yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion sy'n agored i niwed; **polisi cyfle cyfartal**; a **pholisi iechyd a diogelwch**. Efallai y bydd angen **prawf o yswiriant** arnoch hefyd, megis atebolrwydd cyhoeddus.

Ar gyfer menter gymdeithasol, fel cwmnïau buddiannau cymunedol, rhaid i chi hefyd ddangos y canlynol:

- ➔ Bod gennych **o leiaf dri chyfarwyddwr**, gyda'r mwyafrif yn gyflogeion nad ydynt yn cael eu talu.
- ➔ **Nid oes unigolion â rheolaeth sylweddol.**
- ➔ **Cyflogau cyfarwyddwyr:** Rhaid i gyflogau a buddion unrhyw gyfarwyddwyr cyflogedig gael eu cymeradwyo gan fwyafrif o'r cyfarwyddwyr anweithredol. Dylai'r rhain fod yn rhesymol ac yn gymesur â gwaith a sefyllfa ariannol y sefydliad.

Anogir pob sefydliad i hyrwyddo'r Gymraeg. Croesewir tystiolaeth sy'n dangos hyn.

# Atodiad B: Rheolau ynghylch Caffael Grantiau gan Drydydd Parti

| **Rheolau ynghylch Caffael Grantiau gan Drydydd Parti 2025:** | | |
|---|---|---|
| **Gofyniad** | **Gwerth[3]** | **Y Broses Gaffael** |
| **Pob Un** | **£0 - £9,999** | • Mae'n rhaid cael a chadw o leiaf 1 **Dyfynbris ysgrifenedig**, a'i gyflwyno i'r swyddogion prosiect.<br>• Mae'n rhaid cael y gwerth gorau am arian ac mae'n rhaid cymryd gofal rhesymol i gael nwyddau, gwaith neu wasanaethau o ansawdd digonol am bris cystadleuol. Mae'n rhaid cadw cofnod dogfennol i gefnogi'r penderfyniad at ddibenion archwilio<br>• Sylwch **nad** yw'r anfoneb am nwyddau/gwasanaethau/gwaith a dderbyniwyd **yn dderbyniol** a bod angen darparu **dyfynbris** gan y cyflenwr i ddangos bod yr ymgeisydd wedi sicrhau gwerth am arian.<br>• Lle mae nwyddau traul yn cael eu caffael o dan £500, gellir ystyried hyn fel eithriad i'r rheolau hyn, ac ni fydd angen cael dyfynbris ar gyfer yr eitem hon/eitemau hyn. Sylwch fod yn rhaid i chi gyflwyno cais ysgrifenedig i'ch rheolwr prosiect cyn prynu'r nwyddau er mwyn i hyn gael ei gymeradwyo. |

[3] Mae'r holl werthoedd i'w dehongli fel rhai sy'n cynnwys TAW.

| | | |
|---|---|---|
| **Pob Un** | **£10,000 and £74,999** | • Mae'n rhaid ceisio o leiaf 3 Dyfynbris ysgrifenedig o ffynonellau cystadleuol.<br><br>• Mae'n rhaid i'r dyfynbrisiau fod yn seiliedig ar yr un fanyleb, ac mae'n rhaid rhoi dyddiad cau ar gyfer dychwelyd y dyfynbris. Mae'n rhaid gwerthuso'r holl ddyfynbrisiau ar sail 'tebyg am debyg'.<br><br>• Mae'n rhaid cadw cofnod dogfennol o'r dyfynbrisiau a geisiwyd, y broses werthuso a'r penderfyniad dyfarnu at ddibenion archwilio.<br><br>Os mai dim ond un tendr sy'n dod i law, mae'n rhaid i chi gysylltu â'r Rheolwr Prosiect o Gyngor Sir Caerfyrddin (CSC) i roi'r manylion a chyfiawnhau'r broses gaffael a ddefnyddiwyd gennych. Bydd yn rhaid i'r penderfyniad i symud ymlaen i brynu gael ei gymeradwyo gan Gyngor Sir Caerfyrddin, fesul achos. Mewn amgylchiadau lle mae'n amlwg y gellid ceisio mwy nag un dyfynbris, efallai y bydd yn ofynnol hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru. |
| **Nwyddau a Gwasanaethau** | **£75,000 and £214,904**[4] | • Mae'n rhaid ceisio o leiaf **4 tendr** o ffynonellau cystadleuol, gydag **isafswm o 2 dendr yn dod i law.**<br><br>• Mae'n rhaid rhoi'r un wybodaeth i bawb sy'n tendro: yr un fanyleb o'r gofynion, amlinelliad o'r meini prawf gwerthuso a ddefnyddir wrth werthuso'r tendr a'r un dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau, gydag ymrwymiad i beidio â derbyn tendrau ar ôl hynny.<br><br>• Mae'n rhaid i'r broses werthuso a ddefnyddir gyd-fynd â'r meini prawf gwerthuso a bennwyd yn wreiddiol ac mae'n rhaid llunio adroddiad gwerthuso sy'n nodi ar ba sail y dyfarnwyd y tendr llwyddiannus. Yr arfer gorau yw sefydlu panel gwerthuso i werthuso tendrau.<br><br>Os mai dim ond un tendr sy'n dod i law, mae'n **rhaid** i chi gysylltu â'r Rheolwr Prosiect o Gyngor Sir Caerfyrddin (CSC), i roi'r manylion a chyfiawnhau'r broses gaffael a ddefnyddiwyd. Bydd yn rhaid i'r penderfyniad i symud ymlaen i brynu gael ei gymeradwyo gan Gyngor Sir Caerfyrddin, fesul achos. Mewn amgylchiadau lle mae'n amlwg y gellid ceisio mwy nag un tendr, efallai y bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru. |

[4] Mae trothwyon caffael cyhoeddus y DU yn cael eu diweddaru bob dwy flynedd, ac mae newidiadau fel arfer yn dod i rym ar 1 Ionawr yn y flwyddyn ddiweddaru (fe'u diweddarwyd ddiwethaf ar 1 Ionawr 2024).

| | | |
|---|---|---|
| **Gwaith** | **£75,000 and £5,372,609**[5] | • Mae'n rhaid ceisio o leiaf **4 tendr** o ffynonellau cystadleuol, gydag **isafswm o 3 thendr yn dod i law**<br><br>• Mae'n rhaid rhoi'r un wybodaeth i bawb sy'n tendro: yr un fanyleb o'r gofynion, amlinelliad o'r meini prawf gwerthuso a ddefnyddir wrth ddyfarnu'r contract a'r un dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau, gydag ymrwymiad i beidio â derbyn ceisiadau ar ôl hynny.<br><br>• Mae'n rhaid i'r broses werthuso a ddefnyddir gyd-fynd â'r meini prawf gwerthuso a bennwyd yn wreiddiol ac mae'n rhaid llunio adroddiad gwerthuso sy'n nodi ar ba sail y dyfarnwyd y tendr llwyddiannus. Yr arfer gorau yw sefydlu panel gwerthuso i werthuso tendrau.<br><br>• Sylwch, ar gyfer cynlluniau grant penodol sy'n ymwneud â phrosiectau gwaith cyfalaf, mae'n rhaid i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn dilyn canllawiau'r corff cyllido gan ei bod yn bosibl y bydd gofynion a phrosesau penodol y mae'n rhaid eu dilyn. **Gwnewch yn siŵr eich bod wedi trafod hyn gyda'ch Rheolwr/Swyddog Prosiect.**<br><br>Os mai dim ond un **neu** ddau dendr sy'n dod i law, mae'n **rhaid** i chi gysylltu â'r Rheolwr Prosiect o Gyngor Sir Caerfyrddin (CSC) i roi'r manylion a chyfiawnhau'r broses gaffael a ddefnyddiwyd gennych. Bydd yn rhaid i'r penderfyniad i symud ymlaen i brynu gael ei gymeradwyo gan Gyngor Sir Caerfyrddin, fesul achos. Mewn amgylchiadau lle mae'n amlwg y gellid ceisio mwy nag un tendr, bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru.<br><br>**Yn achos contractau gwaith sy'n werth mwy na £250k:**<br><br>• Mae'n rhaid, o leiaf, gynnal diwydrwydd dyladwy, megis gwiriadau Tŷ'r Cwmnïau, gwiriadau rhif TAW, gwiriadau gwefan ac ati, yn ogystal â gwiriadau ariannol ynghylch y contractwr a ffefrir yn dilyn y broses werthuso a chyn dyfarnu'r contract. |

| | | |
|---|---|---|
| **Nwyddau a Gwasanaethau** | **Mwy na £214,904** | Os yw contract am Nwyddau neu Wasanaethau yn debygol o fod **yn fwy na £214,904 (gan gynnwys TAW)** mae'n rhaid i'r ymgeisydd gysylltu â'r rheolwr prosiect i gael gwybod a fydd Deddf Caffael 2023 yn berthnasol i'r contract. |
| **Gwaith** | **Mwy na £5,372,609** | Os yw contract am waith yn debygol o fod **yn fwy na £5,372,609 (gan gynnwys TAW)** mae'n rhaid i'r ymgeisydd gysylltu â'r rheolwr prosiect i gael gwybod a fydd Deddf Caffael 2023 yn berthnasol i'r contract. |

Gofynnir i ymgeiswyr 'Meddwl Sir Gâr yn Gyntaf' wrth geisio dyfynbrisiau ar gyfer prynu Nwyddau/Gwasanaethau a Gwaith. Felly, edrychwch ar y farchnad i weld a oes unrhyw fusnesau yn Sir Gaerfyrddin a all ddarparu'r nwyddau / gwasanaeth neu'r gwaith yr ydych yn ceisio eu prynu. Efallai y bydd gofyn i ymgeiswyr ddangos eu bod wedi ceisio dyfynbrisiau o'r fath.

Mewn amgylchiadau eithriadol lle mae'r nwyddau, y gwaith neu'r gwasanaethau wedi'u nodi fel rhai arbenigol, a/neu lle mai dim ond un cwmni penodol sy'n addas ar gyfer y fanyleb a ddarperir, mae'n rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno cais ysgrifenedig i'r rheolwr prosiect cyn prynu i ofyn am hepgor y gofynion ar gyfer cystadleuaeth.

Cynghorir pob ymgeisydd i ddarllen y canllawiau ynghlwm. Mae terminoleg a diffiniadau yn cael eu hesbonio isod.

[5] Mae trothwyon caffael cyhoeddus y DU yn cael eu diweddaru bob dwy flynedd, ac mae newidiadau fel arfer yn dod i rym ar 1 Ionawr yn y flwyddyn ddiweddaru (fe'u diweddarwyd ddiwethaf ar 1 Ionawr 2024).

## Canllawiau Pwysig

### Hysbysebu trwy GwerthwchiGymru

Os ydych mewn sefyllfa lle rydych yn ei chael hi'n anodd nodi'r nifer lleiaf o gyflenwyr sydd eu hangen a/neu os hoffech amrywio neu ddenu cyflenwyr newydd i gyflwyno dyfynbris neu dendr, mae'n bosibl i chi hysbysebu ar y wefan Gaffael Genedlaethol, sef www.GwerthwchiGymru.co.uk. Bernir mai hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru yw'r arfer gorau, ond efallai y byddai'n well gennych nodi cyflenwyr posibl a allai ddarparu'r cynnig gorau cyffredinol i chi.

Mae'r cyfleuster hwn ar gael i chi yn rhad ac am ddim, ewch i wefan GwerthwchiGymru www.gwerthwchigymru.llyw.cymru/ a chysylltwch â llinell gymorth y wefan ar 0800 222 9004 i gael rhagor o wybodaeth.

### Ceisio Dyfynbrisiau/Tendrau

Yn achos gwariant sy'n fwy na £10,000, mae'n hanfodol bod y dyfynbrisiau/tendrau yn cael eu ceisio gan gyflenwyr priodol ar gyfer y nwyddau, y gwaith neu'r gwasanaethau sy'n ofynnol. Mewn amgylchiadau lle mae'n amlwg bod dyfynbrisiau/tendrau anaddas wedi'u ceisio, efallai y bydd yn ofynnol hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru.

### Diwydrwydd dyladwy

Fel rhan o'r broses asesu, mae'n ofynnol i chi gynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ynghylch y cyflenwr/contractwr yr ydych yn bwriadu ei ddefnyddio i gyflawni'r grant. Pwrpas y gwiriadau hyn yw cadarnhau bod y cwmni yn un dilys. Mae'r gwiriadau hyn yn cynnwys - gwirio manylion y cwmni ar Dŷ'r Cwmnïau, gwirio bod y rhif TAW sydd wedi'i gynnwys yn y cais yn gywir ac yn cyd-fynd â manylion y cwmni. Efallai y byddai'n briodol gwirio gwefannau'r cwmni hefyd i weld ei bortffolio a'r math o waith a phrosiectau y mae'r cwmni hwnnw wedi'u gwneud o'r blaen. Mae hyn yn cynnig sicrwydd y byddai'n addas ar gyfer y prosiect arfaethedig.

## Osgoi gwrthdaro buddiannau

Rydym yn sylweddoli y gallai ymgeiswyr/datblygwyr, neu unigolion sy’n gysylltiedig â nhw (megis perthnasau, partneriaid busnes neu gyfeillion), ddymuno tendro am gontract sy’n cael ei gynnig gan yr ymgeisydd/datblygwr. Mae hynny’n dderbyniol ond bydd angen i’r ymgeisydd sicrhau bod y broses dendro yn cael ei chynnal mewn modd agored, a’i bod yn dryloyw a theg, fel yr amlinellir uchod, heb roi unrhyw fantais i un unigolyn neu gwmni dros un arall. Mae'n rhaid cymryd unrhyw fesurau perthnasol i atal, nodi ac unioni unrhyw wrthdaro buddiannau.

Os oes gan ymgeisydd / datblygwr neu unrhyw berson sy'n gysylltiedig â nhw'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, fuddiant ariannol, economaidd, gwleidyddol neu bersonol arall y gellid ystyried ei fod yn peryglu ei ddidueddrwydd a'i annibyniaeth yng nghyswllt y weithdrefn gaffael:

- mae'n rhaid i’r ymgeisydd / datblygwr, neu unrhyw berson neu barti arall sydd â buddiant, ddatgan y cyfrwy fuddiant yn ysgrifenedig wrth y Swyddog Prosiect a fydd yn rhoi cyngor yn unol â hynny.
- mae'n rhaid sicrhau nad yw manylebau a meini prawf gwerthuso yn ffafrio nac wedi’u teilwra ar gyfer un ateb nac unrhyw un parti dros un arall.
- ni ddylai’r unigolyn neu barti sydd â buddiant gymryd unrhyw ran o gwbl yn y gweithdrefnau i werthuso’r tendrau er mwyn sicrhau bod y broses yn deg i bawb. Cydnabyddir y gallai fod yn ofynnol i Gyngor Sir Caerfyrddin roi'r gymeradwyaeth derfynol.
- mae'n rhaid cofnodi pob cam o'r weithdrefn yn ffurfiol.

Pwrpas y canllawiau hyn yw sicrhau bod yna degwch wrth wario arian cyhoeddus ac nad yw gonestrwydd yr ymgeisydd yn cael ei beryglu.

## Newidiadau i'r fanyleb neu'r contract

Os oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r fanyleb ar ôl ceisio dyfynbrisiau/tendrau sy'n effeithio ar gwmpas gwreiddiol y gofyniad, bydd angen cynnal ymarfer caffael newydd i sicrhau'r gwerth gorau am arian. Gall hyn ddigwydd o ganlyniad i ychwanegiadau annisgwyl i'r gofyniad gwreiddiol, lle cyflwynir tendrau sy'n fwy na'r gyllideb sydd ar gael, lle mae lefelau cyllido yn newid ac ati. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd am grant hysbysu'r Swyddog Prosiect a fydd yn cynnig cyngor yn unol â hynny.

**Cynghorion ynghylch Tendro**

| Pethau i'w gwneud | Pethau i beidio â'u gwneud |
|---|---|
| • **Gofalwch** fod unrhyw wrthdaro buddiannau posibl yn cael ei ddatgan ar y cyfle cyntaf posibl. | • **Peidiwch** â gogwyddo'r fanyleb er mwyn diystyru neu wahaniaethu yn erbyn cyflenwyr h.y. cyfyngu'r fanyleb i frand penodol. |
| • **Cydymffurfiwch** â'r rheolau priodol. | • **Peidiwch** â newid y fanyleb ar ôl iddi gael ei dosbarthu. |
| • **Gofalwch** fod y fanyleb yn fanwl-gywir a heb fod yn fwy na'r gofynion. | • **Peidiwch** â newid y meini prawf gwerthuso yn ystod y broses. |
| • **Gofalwch** fod y Meini Prawf Gwerthuso yn uniongyrchol berthnasol i bwnc y contract. | • **Peidiwch** â rhoi rhy ychydig o amser i gwmnïau gyflwyno dyfynbris. |
| • **Gofalwch** lenwi a chadw cofnodion llawn er gwybodaeth ar gyfer y dyfodol ac at ddibenion archwilio. | • **Peidiwch** â chyfathrebu ar lafar **o gwbl** â chyflenwyr ynghylch cwestiynau penodol. Mae'n rhaid darparu'r un wybodaeth i'r holl gyflenwyr drwy e-bost i sicrhau bod y broses yn un deg a'i bod yn cael ei chofnodi. |
| • **Gofalwch** fod y dyfynbrisiau/tendrau yn cael eu gwerthuso ar sail 'tebyg am debyg'. | • **Peidiwch** â datgelu prisiau i gyflenwyr posibl. |
| • **Gofalwch** eich bod yn delio â chyflenwyr mewn modd agored, tryloyw a hynny heb wahaniaethu. | • **Peidiwch** â thorri'r rheolau ynghylch cyfrinachedd. |
| • **Caniatewch** ddigon o amser i gwmnïau gyflwyno eu dyfynbris | • **Peidiwch** ag agor dyfynbrisiau/tendrau cyn y dyddiad cau. |
| • **Gofalwch** fod gwerth y Nwyddau, y Gwaith neu'r Gwasanaeth yn cael ei amcangyfrif yn gywir ar ddechrau'r broses i ddefnyddio'r broses gaffael gywir. | • **Peidiwch** ag ystyried ceisiadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau. |

## Terminoleg a diffiniadau caffael

| Teitl | Disgrifiad |
|---|---|
| **Contract** | Ystyr Contract at ddibenion y Rheolau hyn fydd unrhyw gytundeb rhwng yr ymgeisydd am grant ac un neu fwy o bartïon eraill ar gyfer: -<br>• gwerthu nwyddau neu ddeunyddiau.<br>• cyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau.<br>• cyflawni gwaith<br>• darparu gwasanaethau (gan gynnwys adeiladau a chyfleusterau). |
| **Nwyddau traul** | Nwyddau traul yw nwyddau defnyddwyr a ddefnyddir gan unigolion a busnesau y mae'n rhaid eu newid ar ôl eu defnyddio. Gall nwyddau traul fod yn eitemau bob dydd y mae'n rhaid eu newid yn gyson a'r rhai sy'n treulio dros gyfnodau hirach. Mae llawer o nwyddau traul yn fwy fforddiadwy na mathau eraill o nwyddau oherwydd eu bod wedi'u bwriadu i gael eu newid yn aml. Mae rhai nwyddau traul wedi'u cynllunio ar gyfer un defnydd yn unig ond gellir defnyddio eraill sawl gwaith. |
| **Ffynhonnell Gystadleuol** | Cyflenwr annibynnol yn gwneud cynnig yn erbyn darparwr annibynnol arall. |
| **Nwyddau** | Eitemau materol, h.y. offer, bwyd, cerbydau ac ati. |
| **Gwerthuso** | Dull o bennu pa ddyfynbris neu dendr yw'r gorau o ran darparu gwerth yr arian yn unol â'r meini prawf gwerthuso a bennwyd ymlaen llaw. Mae'r meini prawf hyn yn helpu i sicrhau bod y broses gwneud penderfyniadau yn deg, yn dryloyw, ac yn unol â'r amcanion. |
| **Meini Prawf Gwerthuso** | Rhestr o ofynion allweddol a ddefnyddir i asesu dyfynbrisiau neu dendrau sy'n dod i law o ffynonellau cystadleuol. Mae'r meini prawf a ddefnyddir i benderfynu pa dendr yw'r un mwyaf manteisiol yn seiliedig ar gyfuniad o feini prawf pris/cost ac ansawdd. |
| **Panel Gwerthuso** | Yr arfer gorau yw sefydlu panel gwerthuso i gynnal yr ymarfer gwerthuso. Gallai fod yn briodol cael panel traws-swyddogaethol. Dylai'r panel gytuno ar y fanyleb a'r meini prawf gwerthuso ymlaen llaw. Dylai'r panel weithredu'n gyson ym mhob cam o'r ymarfer caffael. |

| | |
|---|---|
| **Deddf Caffael 2023** | Mae Deddf Caffael 2023 yn fframwaith cyfreithiol sy'n llywodraethu sut mae sefydliadau'r sector cyhoeddus yn y DU yn prynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Ei nod yw sicrhau tegwch, tryloywder, a gwerth am arian wrth gefnogi cystadleuaeth ac arloesedd. |
| **GwerthwchiGymru** | Gwefan lle hysbysebir pob contract sector cyhoeddus. Gall Derbynwyr Grant Trydydd Parti hefyd hysbysebu trwy'r wefan, a hynny yn rhad ac am ddim. Ewch i wefan GwerthwchiGymru [www.gwerthwchigymru.llyw.cymru/](www.gwerthwchigymru.llyw.cymru/) a chysylltwch â llinell gymorth y wefan ar 0800 222 9004 i gael rhagor o wybodaeth. |
| **Gwasanaethau** | Tasgau a wneir gan bobl h.y. gwasanaethau ymgynghoriaeth, gwasanaethau cyfieithu ac ati. |
| **Manyleb** | Datganiad ysgrifenedig yw hwn sy’n diffinio'r gofynion. Bydd y fanyleb yn amrywio yn ôl y gwaith, y cynnyrch neu’r gwasanaeth dan sylw. Efallai mai disgrifiad byr fydd yn achos cynnyrch syml, ond yn achos gofyniad cymhleth, bydd yn ddogfen gynhwysfawr. Ni ddylai disgrifiad o'r nwyddau, y gwaith neu'r gwasanaethau gyfeirio at wneuthuriad, brand neu ffynhonnell benodol. |
| **Tendr/Dyfynbris** | Y ddogfen y bydd darpar gyflenwr yn ei llunio mewn ymateb i wahoddiad i gyflwyno dyfynbris/tendr. Mae'r ddogfen yn nodi gwybodaeth gyffredinol drwy arddangos gallu a chymhwyster y cyflenwr - gan gynnwys gwybodaeth fanwl am sut y mae'n bwriadu cyflawni manylebau'r gofyniad. |
| **Gwaith** | Mae'n cynnwys gwaith adeiladu, peirianneg sifil ac ati. |